# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

## Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg

Bydd cyfarfod o **Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg** yn cael ei gynnal
**Dydd Mercher, 10 Hydref 2018** am **10.00 am**
**Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX**

**Dolen gyswllt:** Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424062)

**<u>MATERION I'W TRAFOD</u>**

### 1. CROESO A CHYFLWYNIADAU

### 2. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018.

**(Tudalennau 3 - 12)**

### 4. GWASANAETHAU CYMRAEG - ARCHWILIADAU MEWNOL O GYDYMFFURFIAETH

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Diogelu a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi gwybod i Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion y Gymraeg am y broses y mae Gwasanaethau Cymraeg wedi'i mabwysiadu ar gyfer archwilio cydymffurfiaeth adrannau â Safonau'r Gymraeg, gan amlygu meysydd lle mae achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio a chynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn.

**(Tudalennau 13 - 102)**

## 5. RHESTR O ENWAU LLEOEDD SAFONOL CYMRU

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Diogelu a Gwasanaethau Cymuned sy'n rhoi gwybodaeth i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg am y Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru a gafodd ei chyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018, a chyfrifoldebau'r Cyngor mewn perthynas â hyn.

**(Tudalennau 103 - 134)**

## 6. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion eraill sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi dyddiad cyfarfod nesaf Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, sef **dydd Mercher 3 Ebrill** am **10am**.

**<u>CYLCHREDIAD:-</u>**

**Y CYNGHORWYR:**

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)
Y Cynghorydd J Rosser (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd E Stephens

**SWYDDOGION:**

Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Llywodraethol
Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

**MENTER IAITH:**

Einir Sion